# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Gynhadledd 4B - Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 16 Mawrth 2020** |
| Amser: | **12.30** |

## Cofnodion: AC(5)2020(2)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Elin Jones AC (Cadeirydd)**<br>**Suzy Davies AC**<br>**Rhun ap Iorwerth AC**<br>**David J Rowlands AC**<br>**Joyce Watson AC** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**<br>**Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Arwyn Jones, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Gareth Watts, Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau**<br>**Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd**<br>**Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd** |
| Eraill yn bresennol: | **Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd** |

## 1 Cyflwyniad

1.a Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd ymddiheuriadau.

1.b Datgan buddiannau

Nid oedd buddiannau i'w datgan.

1.c Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunwyd bod cofnodion 27 Ionawr yn gofnod cywir.

## 2 Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd – Strategaeth lleihau carbon

Cytunodd y Comisiynwyr ar gyfres o egwyddorion, targedau a chamau gweithredu a fydd yn sail i'r strategaeth lleihau carbon newydd o 2021 i 2030.

Trafododd y Comisiynwyr y camau gweithredu a'r argymhellion, a nodi wrth i'r strategaeth gael ei chwblhau y dylid canolbwyntio mwy ar newid diwylliant ac ymddygiadau. Gwnaethant gytuno hefyd i gydnabod, fel Corff Corfforaethol, bod argyfwng hinsawdd yn bodoli.

## 3 Capasiti Adnoddau'r Comisiwn – y wybodaeth ddiweddaraf

Roedd y Comisiynwyr wedi gofyn am wybodaeth bellach ynghylch y swyddi a nodwyd i gefnogi'r gwaith o gyflawni eu strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu sydd newydd ei chytuno.

Roedd y Comisiynwyr eisoes wedi cytuno ar yr egwyddor o ddyrannu adnoddau ychwanegol i gefnogi eu blaenoriaeth strategol o ymgysylltu. Buont yn trafod y wybodaeth bellach ac ymrwymodd y Llywydd i ddarparu briff ychwanegol i egluro'r berthynas rhwng y rolau newydd a chyflawni'r strategaeth.

## 4 Gohebiaeth y Bwrdd Taliadau

Bu'r Comisiynwyr yn trafod llythyrau gan y Bwrdd Taliadau ynghylch ymgynghoriad y Bwrdd ar y Penderfyniad drafft ar gyfer y Chweched Senedd, ac ynghylch ystyriaeth bellach y Bwrdd o'r materion mewn perthynas â chostau a ysgwyddwyd gan Aelodau am redeg eu swyddfeydd, ac eithrio'r rhai y mae'r Penderfyniad yn darparu ar eu cyfer, lle gwnaethant ddau argymhelliad.

Cytunodd y Comisiynwyr i ysgrifennu yn ôl at y Bwrdd gyda'u casgliadau mewn perthynas â'r argymhellion, gan gytuno, drwy fwyafrif, i ddwyn ymlaen cyhoeddi data o ran defnydd i ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf, ac i ddarparu gwybodaeth i gefnogi gwaith y Bwrdd tuag at gynnwys y darpariaethau hyn yn y Penderfyniad. Ar ôl trafod barn y Bwrdd ynghylch cyflwyno 'cap', cytunwyd i gadw'r status quo ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Cytunwyd hefyd i dynnu sylw at ddau fater sy'n codi o'r ymgynghoriad ar y Penderfyniad, sef esboniad ynghylch y ddwy elfen gyllido a nodwyd i gefnogi ymgysylltu ag etholwyr, a statws yr eiddo a ariennir gan y Comisiwn.

## 5 Opsiynau o ran lle yn y dyfodol – hyblygrwydd cynyddol y swyddfeydd o fewn Tŷ Hywel

Nododd y Comisiynwyr gynigion i newid rhywfaint ar y lle sydd ar gael yn Nhŷ Hywel i roi mwy o hyblygrwydd i swyddfeydd yr Aelodau.

## 6 Pontio o ran yr Etholiad – y dull gweithredu

Nododd y Comisiwn wybodaeth a ddarparwyd am gynllunio ar gyfer diddymu'r Pumed Cynulliad a'r cyfnod pontio dros gyfnod etholiad 2021.

Cytunodd y Comisiynwyr i ystyried materion penodol i wneud penderfyniad yn eu cylch mewn cyfarfodydd yn ddiweddarach yn 2020.

## 7 Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Craffu ar Gyfrifon 2018-19

Trafododd y Comisiynwyr gais gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am wybodaeth bellach mewn perthynas â'r ymateb i ddau o'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor. Nododd y Comisiynwyr y llythyr gan y Pwyllgor a chytunodd ar ymateb.

## 8 Coronafeirws

Ar ôl cael eu briffio, bu'r Comisiynwyr yn trafod y camau a gymerwyd eisoes, yr hyn sy'n cael ei wneud, a'r penderfyniadau y mae angen eu gwneud ar hyn o bryd wrth ymateb i'r coronafeirws, Covid-19. Gwnaethant gytuno ar gamau gweithredu mewn perthynas â throthwyon presennol a thrafod trefniadau ymarferol a pharhad busnes.

Penderfynodd y Comisiwn y bydd gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd yn dod i ben o ddydd Mawrth 17 Mawrth, ac na fyddant yn ailddechrau cyn 26 Ebrill. Bydd adeiladau'n cau i'r cyhoedd ac eithrio'r rhai sy'n cymryd rhan neu'n arsylwi trafodion ffurfiol y Cynulliad. Penderfynodd y Comisiwn hefyd ohirio wythnos fusnes y Senedd yn y gogledd ddwyrain yn ddiweddarach yr haf hwn.

Trafododd y Comisiynwyr hefyd yr angen i gefnogi staff yr effeithir arnynt yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan ledaeniad COVID-19 a'r angen i barhau i ddarparu arweiniad perthnasol i Aelodau'r Cynulliad mewn perthynas â'u staff a'u swyddfeydd eu hunain.

Cadarnhaodd y Comisiynwyr eu cefnogaeth i'r dull arfaethedig a chytunwyd ar y prosesau penderfynu, gan gydnabod y byddai angen gwneud penderfyniadau pellach.

## 9 Papurau i'w nodi:

9.a Diweddariad gan y Bwrdd Gweithredol (penderfyniadau RAD)

Nododd y Comisiynwyr y crynodeb arferol o benderfyniadau recriwtio a roddir ym mhob un o gyfarfodydd y Comisiwn.

9.b Cofnodion Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ACARAC) – y cyfarfod fis Ionawr

Nododd y Comisiynwyr y diweddariad a ddarparwyd yn dilyn cyfarfod ACARAC ym mis Ionawr.

## 10 Unrhyw Fusnes Arall

Hysbyswyd y Comisiynwyr fod y contract glanhau wedi'i ddyfarnu yn dilyn ymarfer caffael.